Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

# Sganiau uwchsain yn ystod beichiogrwydd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

www.antenatalscreening.wales.nhs.uk

© Hawlfraint Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019. Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu'r daflen gyfan neu ran ohoni heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint.

Fel rhan o’ch gofal cyn geni, byddwch yn cael cynnig dau brawf sgrinio uwchsain (*ultrasound*). Gallwch ddewis cael y profion neu beidio. Darllenwch y daflen yma cyn penderfynu.

Taflen i fenywod beichiog ydy hon ac mae’n esbonio:

- natur y profion
- pam maen nhw’n cael eu gwneud
- pryd maen nhw’n cael eu gwneud.

Ffordd o chwilio am broblemau posib gyda’ch beichiogrwydd yw’r sgan. Mae’n brawf sgrinio. Mae hyn yn golygu ei fod yn gallu dod o hyd i broblemau a bydd angen gwneud profion eraill wedyn i edrych arnyn nhw yn fwy manwl. Nid yw sgan yn gallu darganfod pob problem.

www.antenatalscreening.wales.nhs.uk
Mawrth 2019
US Argraffiad 19

## Beth ydy sgan uwchsain?

Mae peiriant uwchsain yn defnyddio tonnau sain i greu delwedd (*image*) ar sgrin cyfrifiadur.

Mae'r person fydd yn gwneud y sgan yn cael ei alw'n sonograffydd. Bydd y sonograffydd yn esbonio i chi beth mae'n ei wneud a beth mae'n edrych amdano.

## Sut mae'r sgan yn cael ei drefnu?

Os byddwch chi'n penderfynu cael sgan, bydd eich bydwraig yn dweud wrthych ble y bydd yn cael ei wneud, a bydd yn trefnu'r apwyntiad i chi.

Os byddwch yn newid eich meddwl ar ôl i apwyntiad gael ei drefnu dylech ddweud wrth eich bydwraig a chanslo'r apwyntiad.

## Sut mae'r sgan yn cael ei wneud?

Bydd y sonograffydd yn gofyn i chi orwedd ar eich cefn i gael y sgan. Nid oes angen i chi wisgo unrhyw ddillad penodol ar gyfer y sganiau, ond bydd y sonograffydd yn gofyn i chi godi eich dillad o'ch gwasg i fyny at eich brest a gwthio eich sgert neu'ch trowsus i lawr at eich cluniau. Bydd jel yn cael ei daenu ar ran isaf eich abdomen er mwyn symud dyfais fach o'r enw trawsddygiadur *(transducer)* yn ôl ac ymlaen drosto. Efallai y bydd angen i'r sonogaffydd bwyso ar eich abdomen gyda'r trawsddygiadur er mwyn gweld eich babi'n iawn.

Nid yw tonnau uwchsain yn gallu pasio drwy'r aer, felly mae'r jel yn gwella'r cysylltiad rhwng eich croen a'r trawsddygiadur. Bydd papur sidan yn cael ei ddefnyddio i atal y jel rhag mynd ar eich dillad.

Mae'r trawsddygiadur yn anfon tonnau sain drwy eich abdomen i mewn i'r groth. Mae'r tonnau sain

yma'n bownsio'n ôl oddi ar y babi ac yn cael eu troi'n ddelwedd ar sgrin.

Bydd y sonograffydd yn cael delwedd gliriach o'ch babi os na fydd eich pledren *(bladder)* yn hollol wag yn ystod y sgan. Ceisiwch beidio pasio dŵr am ryw awr cyn eich apwyntiad

Er mwyn i'r sonograffydd weld eich babi'n glir ar y sgrin, mae'r sgan yn cael ei wneud mewn ystafell heb lawer o olau. Mae'n rhaid canolbwyntio'n ddwys wrth sganio felly mae'r ystafell yn dawel iawn. Bydd y sonograffwyr yn esbonio i chi beth fyddan nhw'n ei wneud ac am beth maen nhw'n edrych.

## Ydy sganiau yn ddiogel?

Hyd y gwyddom ni, mae'r sgan dyddio yn ystod beichiogrwydd cynnar a'r sgan ar gyfer anomaledd y ffetws yr ydym yn eu cynnig yn ddiogel i'r fam ac i'r babi.

## Beth ydy sgan yn ystod beichiogrwydd cynnar a sgan ar gyfer anomaledd y ffetws?

Mae'r ddau sgan yma'n gallu dod o hyd i broblemau cyn i'r babi gael ei eni. Mae cael gwybod am broblemau cyn i'r babi gael ei eni'n gallu'ch helpu chi a'ch partner i baratoi ar gyfer hynny. Weithiau, mae'n gallu helpu i gynllunio'r driniaeth y bydd y babi'n ei chael ar ôl iddo gael ei eni. Weithiau pan fydd menywod yn cael gwybod am broblem ddifrifol, efallai y byddan nhw am ystyried dod â'r beichiogrwydd i ben.

## Beth ydy anfanteision cael y sganiau?

Efallai y bydd cael y sganiau'n gwneud i chi boeni, yn enwedig os bydd problem yn dod i'r amlwg. Os byddai'n well gennych beidio â chael gwybod am unrhyw broblemau sydd gan eich babi cyn iddo gael ei eni, mae angen i chi feddwl yn ofalus am gael y sganiau. Dylech drafod eich pryderon gyda'ch bydwraig.

## Y canlyniadau

### Sut mae cael canlyniadau'r sganiau?

Bydd y sonograffydd yn dweud wrthych beth ydy canlyniad eich sgan ar ddiwedd yr archwiliad.

### A fydd fy nghanlyniadau'n gyfrinachol?

Mae'r GIG yn cadw canlyniadau pob prawf yn gyfrinachol. Mae polisïau ysbytai ar faint o weithwyr gofal iechyd proffesiynol fydd yn gweld canlyniadau eich profion yn amrywio. Bydd eich bydwraig yn gallu esbonio'r trefniadau lleol.

### Alla'i ddod â theulu neu ffrindiau gyda fi i'r sgan?

Mae'r rhan fwyaf o fabanod yn iach, ond gan fod y sganiau'n gallu darganfod anomaleddau, efallai yr hoffech ofyn i'ch partner neu un oedolyn sy'n gallu eich cefnogi ddod gyda chi i'r sgan.

Mae'n well peidio â dod â phlant i'r apwyntiad. Maen nhw'n gallu tynnu eich sylw chi a'r sonograffydd yn ystod y sgan.

Os bydd problemau'n dod i'r amlwg ar y sgan, bydd y sonograffydd yn rhoi gwybod i chi amdanyn nhw ac nid yw'r amgylchedd yma yn addas i blant.

### Ydw i'n gallu cael llun o'r babi?

Weithiau mae'n bosib prynu lluniau sy'n cael eu tynnu o'r babi yn ystod y sgan. Os hoffech wneud hyn, dywedwch wrth y sonograffydd **cyn** i'r sgan ddechrau. Bydd y sonograffydd yn cael y llun gorau o'ch babi o fewn amser yr apwyntiad.

Ni fydd yn bosib recordio fideo na defnyddio ffonau symudol yn yr ystafell uwchsain nac yn ystod y sgan.

# Y sgan uwchsain yn ystod beichiogrwydd cynnar

Mae pob menyw'n cael cynnig y sgan yma, fel arfer rhwng wythnosau 11 ac 14 o'r beichiogrwydd.

## Faint o amser fydd y sgan yn ei gymryd?

Mae'r sgan uwchsain yn ystod beichiogrwydd cynnar yn cymryd tua 10 neu 20 munud.

Pwrpas y sgan ydy:

- gwrando ar guriad calon eich babi
- darganfod ydych chi'n cario mwy nag un babi (bydd angen gofal ychwanegol arnoch chi, ac mae'n bwysig gwybod ydy'r babanod yn rhannu'r un brych (*placenta*))
- mesur eich babi i weld ym mha gam o'r beichiogrwydd ydych chi, a'r dyddiad geni (mae hyn yn bwysig iawn os ydych chi'n ystyried cael mwy o brofion sgrinio)
- mesur tryleuder y gwegil (y bwlch bach sydd yng nghefn gwddf eich babi), os ydych chi wedi gofyn am brawf sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, a
- gwirio datblygiad eich babi (nid yw datblygiad y babi'n glir iawn yn gynnar yn ystod beichiogrwydd ond mae'n bosib gweld problemau difrifol weithiau).

## A fydd angen i mi gael sgan cynnar arall?

Weithiau, nid yw'n bosib gweld y babi'n glir drwy ddefnyddio trawsddygiadur ar yr abdomen, felly gallai'r sonograffydd awgrymu eich bod yn cael sgan mewnol. Sgan trawsweiniol (*transvaginal*) yw'r enw ar hwn, ac mae'n gallu rhoi darlun cliriach. Bydd angen i'ch pledren fod yn wag ar gyfer y sgan yma. Mae trawsddygiadur bach yn cael ei roi yn y wain (*vagina*) ac mae'n teimlo fel tampon.

Nid yw sgan uwchsain drwy'r wain yn boenus fel arfer. Bydd y sonograffydd yn esbonio'r sgan i chi ac yn gofyn ydych chi'n cytuno i'w gael. Os nad ydych chi eisiau cael sgan mewnol, dywedwch wrth y sonograffydd. Byddwch yn cael cynnig apwyntiad ar gyfer sgan abdomenol arall.

## Sgan uwchsain ar gyfer anomaledd y ffetws

Mae'r sgan yma'n cael ei gynnig rhwng wythnosau 18 ac 20 o'r beichiogrwydd.

### Faint o amser fydd y sgan yn ei gymryd?

Mae'r sgan yn cymryd tua 15 neu 30 munud fel arfer.

Pwrpas y sgan yw:

- edrych ar ddatblygiad corfforol eich babi
- helpu i ganfod problemau (sydd hefyd yn cael eu galw'n anomaleddau) fel spina bifida neu gyflyrau ar y galon
- gweld faint o hylif sydd o gwmpas y babi yn y groth, ac
- edrych ar safle'r brych.

Nid yw edrych i weld beth ydy rhyw y babi'n rhan o'r sgan ac nid yw hyn yn gwbl ddibynadwy. Os hoffech wybod beth ydy rhyw y babi a bod y sonograffydd yn gallu gweld hynny, bydd yn dweud wrth y fam yn ystod y sgan. Ni fydd yn ei roi ar bapur.

### A fydd angen i mi gael sgan arall ar gyfer anomaledd y ffetws?

Bydd y sonograffydd yn defnyddio rhestr wirio Cymru gyfan i chwilio am gyflyrau penodol (fel spina bifida) ac i edrych ar strwythurau (fel y galon). Mae'n rhaid i'r sonograffydd ganolbwyntio'n ddwys iawn yn ystod y sgan, felly gwnewch yn siŵr nad ydych chi na'r person sydd gyda chi yn tynnu ei sylw.

Weithiau nid yw'n bosib gweld popeth ar y rhestr yn ystod eich sgan.

Gall hyn fod oherwydd:

- bod eich babi'n gorwedd mewn safle a oedd yn gwneud yr archwiliad yn anodd
- ei bod hi'n rhy gynnar yn y beichiogrwydd i'r sgan gael ei wneud, neu
- eich bod yn pwyso mwy na'r pwysau cyfartalog ar gyfer eich taldra ac roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd edrych ar eich babi oherwydd nid oedd y delweddau'n glir.

Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn cael apwyntiad arall i ddod yn ôl i gael un sgan arall i weld ydy'r sonograffydd yn gallu cwblhau'r rhestr. Nid yw'n bosib i'r sonograffydd gwblhau'r rhestr bob tro, hyd yn oed yn ystod yr ail apwyntiad.

## Pa fath o broblemau mae'r sgan yn gallu eu canfod?

Mae sgan yn gallu darganfod rhai problemau gyda datblygiad babi, ond nid pob un. Gall rhai problemau gyda'ch babi ddatblygu ar ôl wythnos 20, ac efallai na fydd rhai ohonyn nhw i'w gweld ar y sgan. Oherwydd hyn, mae nifer fach iawn o fabanod yn cael eu geni gyda phroblemau er nad oedd unrhyw broblem i'w gweld yn ystod y sgan.

Mae rhestr o enghreifftiau yn Nhabl 1. Mae'r golofn ar y dde yn dangos pa mor debygol ydy hi y bydd sgan anomaledd yn gallu canfod y broblem os yw'r cyflwr ar eich babi. **Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob problem sy'n gallu dod i'r amlwg yn ystod sgan.**

Gall rhai problemau gael eu hachosi am fod newid yng nghromosomau'r babi sy'n effeithio ar y ffordd y mae'n datblygu. Os oes awgrym bod newid yn y cromosomau, efallai y cewch gynnig prawf amniosentesis. Mae gwybodaeth am y prawf yma ar gael mewn taflen ar wahân.

Mae sgan ar gyfer anomaledd y ffetws yn gallu darganfod cyflyrau prin iawn eraill, fel problemau difrifol ar yr

arennau neu ar y coesau a'r breichiau.

Nid yw'r sgan yn gallu gweld cyflyrau eraill, fel mân broblemau gyda'r ffordd y mae'r babi'n datblygu, problemau sy'n datblygu ar ôl i'r sgan gael ei wneud, a chyflyrau fel parlys yr ymennydd *(cerebral palsy)* ac awtistiaeth.

## Beth fydd yn digwydd os bydd problem yn dod i'r amlwg yn ystod y sgan, neu bod awgrym bod problem?

Os bydd y sonograffydd yn darganfod problem, bydd yn dweud wrthych chi amdani, byddwch yn gallu siarad â'r bydwragedd neu feddyg yr ysbyty yn eich clinig cyn geni.

Mae cael newyddion drwg yn gallu peri gofid mawr i chi. Rydym yn argymell bod un oedolyn yn unig yn dod gyda chi i'ch apwyntiad ar gyfer eich sgan.

Gyda rhai problemau bach, efallai mai dim ond sganiau eraill yn nes ymlaen yn eich beichiogrwydd y bydd eu hangen arnoch chi.

Weithiau mae'n amhosib i'r sonograffydd ddweud yn bendant yn ystod y sgan anomaledd cyntaf beth ydy natur y broblem.

Efallai y byddwch yn cael cynnig sgan arall mewn adran arall neu gydag arbenigwr sy'n delio â'r math o broblem a allai fod gan eich babi.

## Profion mewnwthiol (*invasive*) ar ôl cael sgan manwl

Efallai y byddwch chi'n cael cynnig prawf arall hefyd, fel amniosentesis. Bydd eich bydwraig neu'ch obstetregydd (y meddyg yn yr ysbyty) yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am unrhyw brofion eraill.

## Beth fydd yn digwydd os oes anomaledd pendant yn dod i'r amlwg?

Gall cael gwybod am broblem bosib gan eich babi cyn iddo gael ei eni eich helpu chi a'ch partner i baratoi ar gyfer hynny.

**Tabl 1**

| Y broblem | Y siawns o weld y broblem ar sgan uwchsain ar gyfer anomaledd y ffetws rhwng 18 ac 20 wythnos o feichiogrwydd |
|---|---|
| **Spina bifida (cyflwr lle nad oes croen neu asgwrn yn gorchuddio llinyn asgwrn y cefn)**<br>Nam ar ddatblygiad yr asgwrn cefn a llinyn asgwrn y cefn ydy spina bifida sy'n golygu bod bwlch yn yr asgwrn cefn. Llinyn asgwrn y cefn sy'n cysylltu'r holl rannau o'r corff â'r ymennydd. | 90% |
| **Cyflyrau difrifol ar y galon, er enghraifft: pedwarawd Fallot**<br>Mae pedwarawd Fallot (*tetralogy of fallot*) yn gyflwr difrifol ar y galon sy'n golygu nad yw'r galon wedi datblygu yn y groth yn yr un ffordd â chalon normal. Bydd angen llawdriniaeth ar y plentyn, fel arfer yn ystod blwyddyn gyntaf ei oes. | 73% |
| **Awtistiaeth**<br>Nid yw'n bosib darganfod awtistiaeth drwy sgan uwchsain gan nad oes unrhyw annormaledd yn y ffordd y mae corff y babi'n datblygu.<br>Mae awtistiaeth yn anabledd datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar y ffordd y bydd unigolyn yn cyfathrebu â phobl eraill ac yn creu perthynas â nhw. Mae hefyd yn effeithio ar allu unigolyn i wneud synnwyr o'r byd o'i amgylch. | 0% |

*Data gan: Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid Cymru (CARIS)*

*www.caris.wales.nhs.uk/antenatal-detection (Fel ar 22/08/18)*

Gallwch ddefnyddio gwybodaeth am y math o broblem i benderfynu sut, pryd a ble y bydd y babi'n cael ei eni. Efallai y bydd angen i'ch babi gael ei eni mewn ysbyty arall sy'n gallu darparu'r staff a'r gofal arbenigol y bydd eich babi eu hangen.

Mae'n bosib trin nifer fach iawn o broblemau cyn i'r babi gael ei eni.

Os yw'r broblem yn un ddifrifol, efallai y byddwch yn penderfynu parhau â'ch beichiogrwydd, neu'n ystyried dod â'r beichiogrwydd i ben. Mae'r rhain yn benderfyniadau anodd a byddwch chi'n cael amser, gwybodaeth a chymorth i'ch helpu i wneud penderfyniad sy'n iawn i chi.

Mae cael gwybod bod problem gan y babi yn eich croth yn achosi llawer o ofid ac mae penderfynu beth i'w wneud yn anodd. Bydd angen rhywfaint o gefnogaeth ar y rhan fwyaf o fenywod. Gallai'r gefnogaeth ddod gan eich partner, eich teulu neu'ch ffrindiau, neu gan y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gofalu amdanoch chi. Gallwch ddewis dod â'ch partner neu ffrind gyda chi i'ch apwyntiadau yn yr ysbyty.

## Mwy o wybodaeth

Gallwch gael gwybodaeth am sganiau uwchsain gan eich bydwraig, eich meddyg yn yr ysbyty (eich obstetregydd) neu'ch sonograffydd, ac o wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru: www.antenatalscreening.wales.nhs.uk